# 2.0 Diogelu

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Recriwtio Mwy Diogel

## Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Cael mynediad at wiriadau DBS
3. Gweithgareddau a reoleiddir
4. Dyletswydd i Atgyfeirio i'r DBS
5. Adnoddau

## Cyflwyniad

Mae'n hanfodol bod mudiadau trydydd sector yn cynnal gwiriadau cefndirol priodol ar staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr.

Dylai'r defnydd o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS, neu'r CRB gynt) fod yn rhan o'ch dull cyffredinol o ddiogelu ac wedi'i nodi yn eich polisi ac arferion recriwtio mwy diogel.



Llun: Gwirfoddolwr gyda grŵp o bobl hŷn

Mae'r **Comisiwn Elusennau** yn argymell hyn yn gryf. Dim ond ar gyfer rhai rolau a gweithgareddau y cewch gynnal gwiriadau.

**Cymhwysedd DBS**

Os nad ydych yn siŵr a oes angen cynnal gwiriad neu beidio, gallwch ddefnyddio offeryn cymhwysedd y DBS.

Offeryn cymhwysedd y DBS

## Cael mynediad at wiriadau DBS

Yr unig wiriad y gall unigolion ei gael eu hunain yw'r Gwiriad Sylfaenol. Gellir gofyn am wiriad sylfaenol ar gyfer unrhyw swydd ac at unrhyw ddiben. Bydd gwiriadau sylfaenol dim ond yn cynnwys manylion euogfarnau a rhybuddiadau amodol a ystyrir fel rhai 'heb eu disbyddu' o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Byddwch yn ymwybodol y bydd angen lefel uwch o wiriad ar gyfer llawer o rolau.

Rhaid i gyflogwyr gael pob math arall o wiriad **DBS** drwy gorff ymbarel sydd wedi'i gofrestru gyda'r **DBS**. Dylai'r **Corff Cofrestredig DBS** sy'n cynnal gwiriadau ar eich rhan gadarnhau'r cymhwysedd ar gyfer y lefel wirio gywir.

**Dolen Allanol**

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gyrff sydd wedi'u cofrestru gyda'r DBS, a chwilio am un sy'n diwallu eich anghenion, ar wefan y DBS:
Corff Cofrestredig DBS
neu cysylltwch â ni am restr fer o ddarparwyr sydd â dealltwriaeth o ofynion y trydydd sector:
safeguarding@wcva.cymru

Pan fydd staff neu wirfoddolwyr yn gweithio gyda phlant neu oedolion mewn perygl, mae'n bwysig gofyn am y lefel gywir o wiriad **DBS**. Caiff y cymhwysedd ar gyfer gwiriadau ei bennu drwy system baru agos â'r disgrifiad swydd neu rôl.

## Lefelau gwirio

- Mae **gwiriadau safonol** yn briodol i rolau fel swyddog cyllid neu drysorydd, pan fyddwch am sicrhau nad oes gan yr unigolyn hanes hysbys o dwyll.
- Mae **gwiriadau manylach** yn briodol i rolau lle ceir cysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl, sy'n rhoi'r cyfle i berthynas o ymddiriedaeth ddatblygu. Bydd gwiriadau manylach ar gael ar gyfer rolau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
- Mae **gwiriadau manylach gyda gwiriad o'r rhestr wahardd** (gweithlu oedolion, gweithlu plant, neu'r ddau) yn ofynnol yn ôl y gyfraith i unigolion sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn rolau sy'n 'weithgaredd a reoleiddir'.

# Gweithgaredd a Reoleiddir

O dan y deddfwriaethau **Diogelu Grwpiau Hyglwyf a Diogelu Rhyddidau**, mae yna weithgareddau a gwaith penodol na all unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag gweithio gyda grŵp agored i niwed penodol (plant a/neu oedolion) ei wneud. Gelwir hyn yn weithgaredd a reoleiddir.

Os bydd y rôl yn cynnwys gweithgaredd a reoleiddir, bydd angen gwiriad manylach gyda gwiriad o'r rhestr wahardd **yn ôl y gyfraith**.



Llun: Gwirfoddolwr yn gweithio gyda grŵp o blant.

Os yw mudiad gwirfoddol yn cynnwys aelod o staff neu wirfoddolwr mewn gweithgaredd a reoleiddir, yna mae'n rhaid gwneud gwiriad manylach y **DBS**, gan gynnwys gwiriad yn erbyn y rhestr(au) gwahardd b/perthnasol (plant a/neu oedolion), cyn iddo ddechrau yn y rôl honno.

Rhaid i gyflogwyr sydd am gynnwys rhywun mewn gweithgaredd a reoleiddir beidio â chyflogi rhywun sydd wedi'i wahardd yn fwriadol, felly gallant ofyn am wiriad manylach y **DBS**, gan gynnwys gwiriad yn erbyn rhestr wahardd berthnasol y **DBS** (rhestr plant a/neu oedolion). Bydd y gwiriad hwn o'r rhestr wahardd yn dangos a yw rhywun wedi'i gynnwys neu beidio ar y rhestr **DBS** berthnasol.

Efallai y bydd gwaith arall, nad yw'n bodloni'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir, ond sy'n cynnwys cysylltiad sylweddol â phlentyn neu oedolyn (agored i niwed) mewn perygl, yn gymwys i gael gwiriad manylach y **DBS** fel mater o arfer gorau. Ni fydd gwiriad o'r fath yn cynnwys gwiriad yn erbyn y rhestrau gwahardd.

Nid oes rhaid cynnal gwiriad newydd bob tro y byddwch yn recriwtio aelod newydd o staff neu wirfoddolwr, ac nid oes angen ailwirio staff cyfredol. Gallwch gael gwybod rhagor yng ngwasanaeth diweddaru'r **DBS**.
Gwasanaeth diweddaru'r DBS

Gallwch hefyd gysylltu â gwasanaeth diogelu **CGGC** i drafod cymhwysedd a'r defnydd o wiriadau **DBS**, gan gynnwys y gwasanaeth Diweddaru, fel rhan o'ch cynllun recriwtio cyffredinol.

Os oes unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr yn niweidio plentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn mewn perygl y mae mewn cyswllt ag ef yn rhinwedd ei swydd, neu os ymddengys nad yw'n briodol ar gyfer rôl sy'n cynnwys bod mewn cysylltiad â grwpiau agored i niwed, dylid ei adrodd i **Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (LADO)** ar ddechrau eich proses ddisgyblu (Adran 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru: **www.diogelu.cymru**)

## Dyletswydd i Atgyfeirio i'r DBS

Mae dyletswydd gyfreithiol ar y cyflogwr neu fudiad gwirfoddol pan fydd yn gosod staff neu wirfoddolwr mewn gweithgaredd a reoleiddir. Gelwir hyn yn ddyletswydd i atgyfeirio. Bydd angen hon pan fydd y sawl sy'n gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir wedi achosi niwed neu â'r gallu i achosi niwed i'r bobl y mae'n gweithio iddynt neu'n gofalu amdanynt (oedolion mewn perygl neu blant) yn ei rôl yn y gweithgaredd a reoleiddir.

Rhaid gweithredu'r ddyletswydd i atgyfeirio pan fydd y mudiad wedi penderfynu symud y gweithiwr/gwirfoddolwr yn barhaol o'r gweithgaredd a reoleiddir, oherwydd niwed (neu'r perygl o niwed). Mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn berthnasol os yw'r gweithiwr/gwirfoddolwr yn ymddeol, yn camu i lawr neu'n ymddiswyddo o'r rôl. Dylid atgyfeirio at y **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar eu gwefan er mwyn galluogi'r DBS i ystyried gwahardd yr unigolyn o'r gweithgaredd a reoleiddir.

**Dolen Allanol**

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ganllawiau atgyfeirio'r DBS ar wefan llywodraeth y DU:
Gwneud Atgyfeiriadau Gwahardd i'r DBS

## Adnoddau

**Taflenni Canllaw'r DBS**
**Llywodraeth y DU**
https://www.gov.uk/government/publications/dbs-guidance-leaflets

**Gwasanaeth Diweddaru'r DBS**
**Llywodraeth y DU**
https://www.gov.uk/dbs-update-service

**Diogelu**
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
https://wcva.cymru/cy/diogelu/

**Y DBS - Ffeithlen**
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/DBS-Factsheet.pdf

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.